# JONES, THOMAS OWEN ('Gwynfor ', 1875 - 1941), llyfrgellydd, dramodydd, actor a chynhyrchydd

**Enw:** Thomas Owen Jones
**Ffugenw:** Gwynfor
**Dyddiad geni:** 1875
**Dyddiad marw:** 1941
**Rhiant:** Ellen Jones
**Rhiant:** William Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llyfrgellydd, dramodydd, actor a chynhyrchydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
**Awdur:** Thomas Elwyn Griffiths

Ganwyd 19 Ionawr 1875=, ym Mhwllheli, Caernarfon, mab William ac Ellen Jones, Stryd Newydd. Derbyniodd ei addysg yn ysgol y cyngor yn y dref honno, a'i brentisio wedyn mewn siop groser leol. Rhwng 1916 ac 1917 bu'n cadw busnes ei hun yn nhref Caernarfon nes ei benodi'n llyfrgellydd y sir ar gyflog o £130 y flwyddyn. Hon oedd y llyfrgell sir gyntaf i'w sefydlu yng Nghymru. Lleolwyd hi mewn dwy ystafell ym Mhlas Llanwnda, Stryd y Castell, Caernarfon. Ymddengys mai penodiad dros dro oedd hwn yn y lle cyntaf, ond ymwelodd Gwynfor â phencadlys Ymddiriedolaeth Carnegie yn Dunfermline am ychydig amser er mwyn ymgymhwyso rhywfaint ar gyfer y swydd newydd hon, a hynny mewn cyfnod pan na osodid fawr ddim pwys ar fod yn llyfrgellydd proffesiynol. Ym myd y ddrama yr oedd rhagoriaeth Gwynfor a daeth yn enwog trwy Gymru gyfan fel actor a chynhyrchydd i'w gwmni drama ' Y Ddraig Goch '. Cyhoeddodd nifer o'i ddramâu ei hun: *Y Briodas ddirgel* (1915), *Trem yn ôl* (1920; ail arg.), *Perthnasau* (1922), *Y llo aur a lloi eraill* (1925), *Eiddo pwy?* (1935), *Troi'r byrddau* (1939), a *Tywydd mawr* (1931), a chyfrol o ryddiaith - *Straeon* (1931). Yr oedd yn gwmnïwr diddan a chanddo stôr o draddodiadau am y Maes yng Nghaernarfon. Yr oedd yn eisteddfodwr brwd ac yn feirniad drama yn yr Eisteddfod Genedlaethol droeon. Daeth ei ystafell yn y llyfrgell yn gyrchfan boblogaidd i bobl llengar y cylch - yn eu plith rai o ffigyrau amlwg y dydd fel E. Morgan Humphreys, Meuryn, (R.J. Rowlands), a Chynan. Ef oedd un o'r rhai cyntaf i ddarlledu yn Gymraeg o Fanceinion yn y 1930au. Bu farw 22 Awst 1941 ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon, lle gwelir ar ei garreg fedd y geiriau ' Actor da, Cymro da, Cristion da '.

## Awdur

**Thomas Elwyn Griffiths**

## Ffynonellau


'Caernarfonshire and its libraries; development of the first County Library in Wales', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1972

O. Llew Owain, *Hanes y ddrama yng Nghymru, 1850-1943* (Lerpwl 1948) (1948)

papurau lleol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734512

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu